

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWYD YN Y NEUADD 7 EBRILL 2022 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol Y Cyng Elfyn Williams (Cadeirydd), Nicola Jones, Janet Knott, Viv Davies, Richard John, Meinir James, Rheinallt Jones ac Arfon Davies (Clerc).

Ymddiheuriadau: Cyng Philip Davies, Shan Rees ac Eifion Jones.

Nododd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Cyngor i'r Cyng Shan Rees a oedd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Nododd y Cadeirydd hefyd longyfarchiadau'r Cyngor i'r Clerc ar ei benodiad diweddar yn Glerc y Dref yng Nghyngor Tref Llanelli.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd Mawrth 2022.

4. Materion yn codi

- 1. Diogelwch ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog gyda'r A484** – Roedd y Cyngor yn aros am ddyddiad ar gyfer ymweliad safle gyda'r Adran Goleuadau Cyhoeddus o Gyngor Sir Caerfyrddin i drafod prosiect gwella ar gyfer y gyffordd.
- 2. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan** – Cafwyd ymateb bod y data a gasglwyd yn y lleoliad wedi'i lygru ac felly byddai angen cynnal ymarferiad pellach. Nodwyd.
- 3. Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 4. Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 5. Terfyn cyflymder 30mya ym Mhentrepoeth** – Cafwyd ymateb, oherwydd chynllun Llywodraeth Cymru i ddiwygio llawer o'r terfynau cyflymder 30mya presennol yng Nghymru i 20mya, y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r holl ardaloedd lle mae terfynau cyflymder wedi gostwng o'r terfyn cenedlaethol i 30mya. Byddai hyn yn effeithio ar y lleoliad ac felly byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal dros yr haf gyda gweithrediad arfaethedig erbyn Gwanwyn 2023. Nodwyd.
- 6. Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 7. Materion traffig yng Nghroesyceiliog** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod arwyddion rhybudd 'cerddwyr ar y ffordd o blaen' wedi'u harchebu a rhagwelwyd y byddent yn cael eu gosod erbyn diwedd mis Ebrill. Yn ogystal, fel y nodir yn eitem 4.5 uchod, roedd yr ardal yn debygol o gael ei heffeithio gan y newidiadau terfyn cyflymder arfaethedig. Nodwyd.
- 8. Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
- 9. PL/02474** – Roedd yr adroddiad gofynnol gan yr ymgeisydd yn cael ei aros.
- 10. FP29/24 – Nantllan** – Roedd yr Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi cadarnhau bod y gwaith atgyweirio wedi ei gofnodi ar y system. Nodwyd.

- 11. FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd yr Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi cadarnhau bod y gwaith atgyweirio wedi ei gofnodi ar y system. Credwyd bod y problemau gyda mynediad yn y lleoliad hwn bellach wedi eu goresgyn, bydd y Clerc felly yn gofyn am ystyried gwelliannau i drefniadau camfa ar gyfer y llwybr.
- 12. Golau Solar yn Idole** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod yr uned oleuo wedi'i thynnu i ffwrdd a chadarnhawyd ei bod yn ddiffygiol. Byddai un arall yn cael ei archebu. Nodwyd.
- 13. Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole** – Nodwyd bod gwaith pellach wedi ei wneud ar y cae gan gynnwys darparu carafán. Cadarnhaodd y Clerc fod hyn wedi ei adrodd i Dîm Gorfodaeth Cynllunio y Cyngor Sir er eu sylw.
- 14. Rhoddion cytunwyd yng nghyfarfod mis Mawrth 2022** – Derbyniwyd llythyrau o ddiolch oddi wrth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser a Gofal Canser Marie Curie. Nodwyd.
- 15. Cyrb Gostyngedig Tir Gof** - Cadarnhawyd bod y sefyllfa gyda'r cyrb isel yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir. Nodwyd.
- 16. Cinio Blynyddol y Cyngor 29^{ain} Ebrill** - Darparodd y Cadeirydd fanylion bwydlen y noson. Bydd y Clerc yn cylchredeg i aelodau gadarnhau'r gofynion yn barod ar gyfer Clwb Golff Caerfyrddin.

5. Gohebiaeth

- 1. Un Llais Cymru** – Adnewyddu tanysgrifiad 2022-23 gyda chost o £220.00. Cytunwyd i dalu hyn.
- 2. Banc Barclays** – Datganiadau, arwyddwyd y cysoniad banc gan Cyng Meinir James.
- 3. Llywodraeth Cymru** – Gwybodaeth am y dyddiadau y mae angen eu cwrdd ar gyfer Paratoi a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2021-22. Nodwyd.
- 4. Archwilio Cymru** – Copi o'r Pecyn Archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Nodwyd mai'r dyddiad a bennwyd ar gyfer arfer hawliau etholwyr oedd 12 Medi. Nododd y Clerc y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo yng nghyfarfod mis Mehefin. Nodwyd.
- 5. Llywodraeth Cymru** – Newyddion Coedwig Genedlaethol Cymru. Nodwyd.
- 6. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ffoaduriaid o Wcrain. Nodwyd.
- 7. Llywodraeth Cymru** – Strategaeth Gweithio o Bell yng Nghymru. Nodwyd.
- 8. Comisiynydd y Gymraeg** – Cadarnhad o dderbyn Adroddiad Blynyddol y Cyngor o'i weithgareddau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg. Nodwyd.
- 9. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** – Maniffesto i'r Dyfodol – Argymhellid i bleidiau gwleidyddol wrth iddynt ddatblygu eu rhaglenni gwleidyddol ar gyfer yr Etholiad Lleol ym mis Mai. Nodwyd.
- 10. Cyngor Sir Caerfyrddin** – Hysbysiad o gau ffordd dros dro yr C2072 yng Nghwmffrwd, wedi'i wneud ar 21^{ain} Mawrth. Nodwyd.
- 11. Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin** – Gwybodaeth am y chwiliad dolydd mawr sy'n cael ei wneud rhwng 1 Mehefin a 31 Awst. Nodwyd.
- 12. Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
- 13. Anna Charalambous-Green** – Diweddariad ar brosiect Coed Gorllewin Cymru yn Idole / Pentrepoeth. Nodwyd.
- 14. Peter Stropp** – Cais am wybodaeth am leoliadau a ddefnyddir ym Mhlwyf Llandyfaelog ar gyfer Ysgolion Elusennol Cylchynol Griffith Jones. Nodwyd.

15. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cylchlythyr
Calon Tân Gwanwyn 2022. Nodwyd.

16. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Cynllun
Strategol 2022-2027 a Chynllun Gwella Busnes Blynyddol 2022/2027.
Nodwyd.

6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens.
2. Darparodd y Clerc y prisiau ar gyfer yr Archwiliad Ardal Chwarae Flynyddol fel a ganlyn:
 - The Play Inspection Company £72.95
 - ROSPA £70.00Cytunwyd i gadw gwasanaethau'r Play Inspection Company oherwydd ansawdd darganfyddiadau'r adroddiad a ddarparwyd
3. Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad 6 mis ar gyflwr amwynderau'r Cyngor gyda'r gwaith yn cael ei ddarparu i Atgyweiriwr y Cyngor i'w gwblhau.

7. Atgyweiriwr y Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr o waith ym mis Mawrth gyda chost o £420.00 yn cael ei gymeradwyo.

8. Adroddiad Cyllid 2021-22

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb 4ydd chwarter ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

Cynhaliodd y Cadeirydd adolygiad o Gofnodion Ariannol y Cyngor am y flwyddyn.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith gyda chofnodion ariannol y Cyngor.

9. Asesiad Risg 2022-23

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2022-23 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cytunwyd y ddogfen ddrafft.

Nodwyd bod risg wedi'i gynnwys mewn perthynas â darparu anfonebau'n hwyr i'r Cyngor yn effeithio ar reolaeth ariannol.

10. Adroddiad Cyflogau Staff a Chontractau 2021-22

Cytunwyd Cyngor cau allan y cyhoedd â'r wasg o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem oherwydd natur y wybodaeth i drafod.

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a chytunwyd yr eitemau canlynol.

a) Glanheuwyrr Arosfeydd Bysiau

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd cadw taliad ar gyfer arosfan bysiau Croesyceiliog fel £100 y flwyddyn.

b) Atgyweiriwr

Nodwyd taw yr Atgyweiriwr oedd Michael Leefe gyda thaliad o £15.00 yr awr.

c) Clerc y Cyngor

Cytunwyd i gadw'r pwynt tâl presennol ar frig y raddfa berthnasol ym mhwynt 29, sef £7,628.65 ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Cyngor dalu lwfans o £26.00 y mis ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cywmpasi lwfans gweithio cartref CTEM (£26.00 y mis ar hyn o bryd).

Cadarnhaodd y Cyngor y dylid talu'r lwfans teithio angenrheidiol a dalwyd ar gyfradd lwfans milltiroedd CTEM (45c y filltir ar hyn o bryd).

11. Digwyddiadau Cymunedol 2022

a) Jiwili Platinwm Ei Mawrhydu'r Frenhines

Nododd y Clerc fod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Phwyllgor y Neuadd i drafod y digwyddiad a awgrymwyd a fyddai'n cael ei gynnal ar brynhawn dydd Sadwrn 4ydd o Fehefin. Byddai hyn yn cynnwys adloniant i blant, parti stryd a gweithgareddau. Bydd trafodaethau yn parhau gyda Phwyllgor y Neuadd.

Cytunwyd hefyd i ddarparu mwg i bob plentyn ysgol gynradd neu iau. Gwnaed y Clerc darparu dyfynbrisiau a dyluniadau gan y cwmnïau canlynol:

Printed for You	108 mwg	£428.00
Insignia	108 mwg	£780.84
Queen's Platinum Jubilee	108 mwg	£737.64

Cytunwyd i drafod dyluniad addas i'w archebu gyda Printed for You.

Cadarnhaodd y Clerc ymhellach ei fod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn am wybodaeth ar ble roedd Pobl Ifanc y Cymuned yn mynychu'r ysgol er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r digwyddiad. Byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu yn yr ardal hefyd i geisio sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gael mwg coffaol.

b) Cystadleuaeth Gardd Gymunedol a Chystadleuaeth Bwgan Brain

Cytunwyd i wahodd Mr. Nigel Sheldon i feirniadu cystadlaethau ardd ac i Gadeirydd y Cyngor feirniadu'r Cystadleuaeth Bwgan Brain.

12. Cynllunio

- 1. PL/03505** – Estyniad ochr arfaethedig – Golwg y Bryn, Llangyndeyrn, SA17 5HH. Dim gwrthwynebiadau.
- 2. PL/03836** - Estyniad i'r cartref, lledu'r dreif ac estyniad i'r ardd gefn - Harddfan, Bancyapel, Caerfyrddin, SA32 8EB. Dim gwrthwynebiadau.

13. Cyfrifon

a) Cytunwyd y taliadau canlynol:

- | | | |
|------------------------------|------------------|--|
| 1. Cyngor Sir
Caerfyrddin | £1,292.70 | Costau uwchraddio LED (blwyddyn 1 o 8)
£1,077.25 gyda TAW £215.45 |
| 2. Un Llais Cymru | £220.00 | Tanysgrifiad (gweler eitem 5.1) |
| 3. Cyngor Sir
Caerfyrddin | £1,959.60 | Costau goleuadau cyhoeddus 2021-22
£1,633.00 gyda TAW £326.60 |

4.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Mawrth a costau	£635.73 £120.34 (backpay)	£26.00 £7.00 £51.67 £14.40	£855.14	£152.60	£0.00	£702.54

- | | | |
|-----------------------|----------------|-----------------------------|
| 5. Cyllid a Tollau EM | £405.00 | Treth Incwm Ionawr – Mawrth |
| 6. Michael Leefe | £420.00 | Mawrth (gweler eitem 7) |

b) Cadarnhaodd y Clerc derbyniad yr hawliad TAW ar gyfer 2021-22 mewn swm o £701.16.

14. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nodwyd tipio anghyfreithlon yn Llwynhelyg, Garthowen, Llechdwni a Chapel Penygraig. Bydd y Clerc yn codi gyda'r Cyngor Sir.
2. Bydd y Clerc yn gofyn am ddiweddariad ar y gwaith datblygu sydd angen ei wneud ar stad Maesglasnant yng Nghwmffrwd.
3. Nodwyd y cynhelir bore coffi er budd Apêl Wcrain yn Gellideg ar ddydd Sadwrn 9fed Ebrill.

Cynhelir cyfarfod nesaf a Chyfarfod Blynnyddol y Cyngor ddydd Iau 12 Mai 2022.